| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Tachwedd 2017** |
| **Pwnc:** | **Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddariad ar gynnydd o ran gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol /<br>Llŷr Bryn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/ion**

**R1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd a wnaed hyd yma o ran gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant
- Ei bod yn ymddangos bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn mynd rhagddynt yn unol â'r targed hyd yma

**R2** Uchafu'r mater canlynol er mwyn codi ymwybyddiaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

- Er bod cynnydd da wedi ei wneud mewn perthynas â gweithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae nifer o swyddi'n parhau i fod yn wag. Mae angen rhoi sylw i hyn cyn gynted ag sy'n bosibl.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol gyda Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd y ffaith bod y Panel wedi rhoi ystyriaeth i'r cynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaethau plant yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith bod y Cyngor yn ymateb yn gadarn i'r argymhellion yn adroddiad diweddar AGGCC ar y gwasanaethau plant (dyddiedig Mawrth 2017) a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini**

**I gynorthwyo'r Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer / dinasydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Ar gais y Panel:<br><br>1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaeth y ffrydiau gwaith yn rhaglen waith y Panel?<br>2. A ydy'r camau a gymerwyd gan y Panel hyd yma'n ddigon cadarn? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CEFNDIR

**1.1** Bydd Aelodau eisoes yn gwybod bod sgriwtini wedi datblygu yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf drwy waith y 3 panel sgriwtini, sef – Panel Sgriwtini Cyllid, Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Yn yr adroddiad hwn, ceir crynodeb ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran y **Panel Gwella Gwasanaethau Plant.**

1.2 **Trefniadau Llywodraethiant y Panel**

Fel yr adroddwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn ddiweddar[1], mae trefniadau llywodraethiant cadarn wedi cael eu sefydlu i ategu gwaith y Panel a bwriedir parhau i geisio cynnal cyfarfodydd o'r Panel bob mis. Mae proses mewn lle i'r Cynghorydd Richard Griffiths gyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.

## 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT

2.1 Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi cyfarfod bedair gwaith erbyn hyn ar y dyddiadau isod –
- 17 Gorffennaf, 2017
- 21 Awst, 2017
- 25 Medi, 2017 a
- 26 Hydref, 2017

Mae copi o fersiwn ddiweddaraf rhaglen waith y Panel ynghlwm **(ATODIAD 1)**

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi, 2017

2.2 Mae'r Panel wedi bod yn canolbwyntio ar y materion canlynol yn ystod y ddau fis diwethaf:

- Sylw manwl i **Thema 2** y Cynllun Gwella – **Asesiadau, ymyrraethau a phenderfyniad amserol o safon uchel** (argymhellion 3,9,10 & 11 adroddiad AGGCC). Yn ystod ei drafodaethau, nododd y Panel bod trafodaethau ar lefel ranbarthol gyda Heddlu Gogledd Cymru ynghylch ansawdd a chysondeb cyfeiriadau amddiffyn plant yn parhau.

- Sylw manwl i **Thema 3** y Cynllun Gwella – **Gwarantu Ansawdd**. 'Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar y fframwaith gwarantu ansawdd sy'n esblygu ar gyfer y gwasanaethau plant ac argymhellion 2,13 & 14 adroddiad archwilio diweddar yr Arolygiaeth Gofal

- **Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG)** – trosolwg o Gynllun Gwella'r Gwasanaeth ym mhob cyfarfod o'r Panel er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn mynd rhagddi'n unol â'r targedau. Hefyd, yn fodd i'r Panel nodi'n gynnar unrhyw arwyddion o lithriad neu ddiffyg cynnydd

- **Ymweliadau Laming** – adrodd yn ôl ar yr Ymweliad Laming cyntaf dan y fframwaith llywodraethiant sydd wedi ei gryfhau. Mae rota Aelodau ac uwch swyddogion bellach wedi'i sefydlu i ymweld yn fisol â gwahanol dimau yn y Gwasanaethau Plant

- Edrych yn fanwl ar un **dangosydd perfformiad allweddol [SCC/025]** - *% yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau*
  Derbyniodd y Panel gyflwyniad ar gymhlethdod y data a gasglwyd ar gyfer y dangosydd perfformiad yma a dadansoddiad manwl o berfformiad ar gyfer mis Awst, 2017. Yn ngoleuni ei drafodaethau, cadarnhaodd y Panel bod angen adolygu'r data am y cyfnod Ebrill → Gorffennaf, 2017 er mwyn sicrhau cywirdeb y broses casglu data ac adrodd ar berfformiad **[PG 38]**

- **Gwerthusiad allanol** – trosolwg o rôl a chylch gorchwyl y Tîm fel paratoad ar gyfer cyflwyno eitem sylweddol i gyfarfod o'r Panel i'w gynnal ar 28 Tachwedd.

- **Sesiynau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth** – wedi'u hymgorffori yn rhaglen waith y Panel a'r sesiynau'n cael eu cynnal ar gychwyn pob cyfarfod o'r Panel. Mae pynciau a drafodwyd yn ystod y mis neu ddau ddiwethaf yn cynnwys – Ymweliadau Laming (pwrpas, ffiniau, adrodd yn ôl); diwrnod gwaith ym mywyd gweithiwr cymdeithasol yn y gwasanaethau plant.

## 3. MATERION I'W HUCHAFU AR GYFER EU TRAFOD GAN Y RHIANT BWYLLGOR

Y materion isod i'w uchafu ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

3.1 Er bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â gweithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae nifer o swyddi'n parhau i fod yn wag. Mae angen rhoi sylw i hyn cyn gynted ag sy'n bosibl.

3.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol lunio barn ynghylch cadernid prosesau monitro'r Panel hyd yma.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Rhaglen waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant |

| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng Richard Griffiths**
**Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant / Pencampwr Plant mewn Gofal**
**Dyddiad: 30/10/17**

**PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT – RHAGLEN WAITH /**
***CHILDREN'S SERVICES IMPROVEMENT PANEL – WORK PROGRAMME***

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| **GORFFENNAF → RHAGFYR, 2017**<br>***JULY → DECEMBER, 2017*** | | | | |
| **1** | **GORFFENNAF**<br>***JULY***<br>17/07/17<br>[3.00 – 5.00] | CG, Cynllun Prosiect a gosod y cyd-destun / *TOR, Project Plan & setting the scene* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth – trosolwg lefel uchel /<br>*Service Improvement Plan – high level overview* | | |
| | | Thema 1: Gweithlu a Strwythur y Gwasanaeth/ *Theme 1: Workforce & Structure* | | |
| **2** | **AWST**<br>***AUGUST***<br>21/08/17<br>[2.00 – 4.30] | Cylch Gorchwyl terfynol / *Final Terms of Reference* | | |
| | | Argymhellion yr AGGCC / *CSSIW recommendations* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth – diweddariad /<br>*Service Improvement Plan – update* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Trosolwg: Ymweliadau Laming → rhaglen dreigl o ymweliadau ac adrodd yn ôl / *Overview*: *Laming Visits – rolling programme of visits and reporting back* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu / *Work programme and development needs* | | |
| **3** | **MEDI /** ***SEPTEMBER*** 25/09/17 | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Ymweliadau Laming (pwrpas; ffiniau; adrodd yn ôl; rhestr wirio ymweliadau) *Development session/awareness raising → Laming Visits (purpose; boundaries; reporting back; visits checklist)* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth (cipolwg) / *Service Improvement Plan (quick review)* | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee, 04/09/17* | Pwyllgor Gwaith / *Executive, 18/09/17* |
| | | Thema 2: Asesiadau, Ymyrraethau a Phenderfyniadau Amserol o Safon Uchel *Theme 2: Quality and Timely Assessments, Interventions & Decision Making* | | |
| | | Data perfformiad – RHAN I: % yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau [SCC/025] */Performance data [PIs] – PART I: % of statutory visits to* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | *looked after children due in the year that took place in accordance with regulations [SCC/025]* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **4** | **HYDREF / *OCTOBER*** 26/10/17 [10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → "Diwrnod gwaith ym mywyd gweithiwr cymdeithasol plant" *Development session/awareness raising → "Day in the life of a children's social worker"* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth (cipolwg) / *Service Improvement Plan (quick review)* | | |
| | | **Thema 3: Gwarantu Ansawdd** golwg manwl ar Argymhellion 2, 11, 13 a 14 – Adroddiad yr AGGCC / ***Theme 3: Quality Assurance*** *closer look at Recommendations 2, 11, 13 & 14 – CSSIW Report* | | |
| | | **Tîm Cefnogaeth Annibynnol** – trosolwg (rôl a chylch gorchwyl. Paratoi ar gyfer eitem sylweddol mis Tachwedd) ***Independent Support Team*** – *overview (role and remit. Prepare for substantive item in November)* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Adolygu trefniadau ar gyfer Ymweliad Laming / Adborth o'r Ymweliad cyntaf → Thema 1 (Gweithlu) / *Review arrangements for Laming Visit / Feedback from first Vist → Theme 1 (Workforce)* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **5** | **TACHWEDD / NOVEMBER** 28/11/17 [10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant<br>*Development session/awareness raising → Children on the Child Protection Register* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth (cipolwg) / *Service Improvement Plan (quick review)* | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee, 13/11/17* | Pwyllgor Gwaith / *Executive, 27/11/17* |
| | | **Thema 2: Asesiadau, ymyrraethau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant** golwg manwl ar Argymhellion 3, 9, a 10 – Adroddiad yr AGGCC / ***Theme 2: Quality & timely assessments, interventions & decision-making to protect, support & manage risks for children*** *closer look at Recommendations 3, 9 & 10 – CSSIW Report* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | **Tîm Cefnogaeth Annibynnol** – cyflwyniad gan aelod o'r Tîm (rôl a chylch gorchwyl (dilyniant o'r eitem trosolwg, cyfarfod mis Hydref y Panel)<br>***Independent Support Team*** – *presentation by a member of the Team (follow on from the overview item, October Panel meeting)* | | |
| | | Data perfformiad – RHAN II: golwg manwl ar un o'r dangosyddion perfformiad unigol / *RHAN II: indepth look at one key performance indicator:*<br>*Each child, whose name is placed on the Child Protection Register, should have a named key worker who carries the professional responsibility for the case. The key worker should see the child at least every 10 working days and ensure that the child is seen at home at least every 4 weeks* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **6.** | **RHAGFYR / DECEMBER** 19/12/17 [10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Arbedol [Llŷr ap Rhisiart]<br>*Development session/awareness raising → Early Intervention & Preventative Service* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth (cipolwg) / *Service Improvement Plan (quick review)* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Thema *: I'W GADARNHAU<br>*Theme *: TO BE CONFIRMED* | | |
| | | Data perfformiad – Rhan III: golwg manwl ar dueddiadau a phatrymau 3 blynedd / *PART III: indepth look at trends and any 3 year patterns* | | |
| | | Data perfformiad – RHAN IV: golwg manwl ar un o'r dangosyddion perfformiad unigol / *PART IV: indepth look at one key performance indicator* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **IONAWR → MAI, 2018**<br>***JANUARY → MAY, 2018*** | | | | |
| **7.** | **IONAWR / JANUARY**<br>23/01/18<br>[10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys [Fon Roberts]<br>*Development session/awareness raising → Intensive Intervention Service* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth (cipolwg) / *Service Improvement Plan (quick review)* | | |

| **CYFARFOD / *MEETING*** | **DYDDIAD / *DATE*** | **PWNC / *SUBJECT*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE*** |
|---|---|---|---|---|
| | | Diweddariad / monitro cynnydd ar Thema 2 y Cynllun Gwella Gwasanaeth. Cynnwys diweddariad ar y trafodaethau efo Heddlu Gogledd Cymru **[PG 36]** / *Update / monitor progress on Theme 2 of the Service Improvement Plan. Include an update on the discussions with North Wales Police* **[AP 36]** | **PG 37** Rhaglennu diweddariad pellach i'r Panel ar faterion y strwythur a gweithlu ac effeithiau'r camau rhoddwyd mewn lle. Hefyd, rhaglennu diweddariad ar Thema 2 yr un pryd (**PG 36)** | |
| | | Diweddariad pellach ar faterion y strwythur a gweithlu ac effeithiau'r camau rhoddwyd mewn lle **[PG 37]** / Further update on structure and workforce issues and the impact of actions taken **[AP 37]** | | |
| | | Thema *: I'W GADARNHAU<br>*Theme *: TO BE CONFIRMED* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **8.** | **CHWEFROR / FEBRUARY**<br>26/02/18<br>[10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Protocol ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>*Development session/awareness raising → Protocol for the role of the Director of Social Services* | | |
| | | Cynllun Gwella Gwasanaeth (cipolwg) / *Service Improvement Plan (quick review)* | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee*, 05/02/18 | Pwyllgor Gwaith / *Executive, 19/02/18* |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | I'w gadarnhau / *To be confirmed*<br>Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **AGGCC yn ail-ymweld â'r Cyngor i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolwg [rhwng Mawrth → Medi, 2018]/** ***CSSIW to revisit the Council to monitor progress against the recommendations of the review [between March → Sept, 2018]*** | | | | |
| **9.** | **MAWRTH / MARCH** 20/03/18 [10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → I'W GADARNHAU<br>*Development session/awareness raising → TO BE CONFIRMED* | | |
| **10.** | **EBRILL / APRIL** | | | |
| **11.** | **MAI / MAY** | | | |
| **MEHEFIN → JUNE →** | | | | |
| **12.** | **MEHEFIN / JUNE** | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → I'W GADARNHAU<br>*Development session/awareness raising → TO BE CONFIRMED* | | |

Mae yna nifer o bynciau sydd angen eu hychwanegu at raglan waith y Panel / *There are a number of topics which need to be added to the Panel's work programme:*

**Sesiynau ddatblygu/codi ymwybyddiaeth / *Development/awareness raising sessions:***

*i.* Prosesau cyfreithiol a diffiniadau (Cofrestr Amddiffyn Plant, Plant mewn Angen, Plant mewn Gofal, ôl-ofal) */ Legal processes and definitions (Child Protection Register, Children in Need, Children in Care, Aftercare)*
*ii.* Ymyrraeth fuan a gwasanaethau ataliol / *Early intervention and preventative services*
*Ee Adverse Childhood Experiences [ACEs]* (ymyrraethau ataliol / *preventative, universal interventions*)
Rôl Teulu Môn a Dyletswydd (ymyrraeth fuan) / *Role of Teulu Môn and Duty (early intervention)*

*iii.* Model dwys o ymyrryd */ Intensive model of intervention [IFSS]*
*iv.* Rheoli perfformiad a dangosyddion perfformiad / *Performance management and performance indicators*
*v.* Protocol ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol / *Protocol for the role of the Director of Social Services*

Eitemau i'w hychwanegu / Items to be added:

- Sesiwn → Rhan 4: Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (holiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol yn y maes plant) (PG 34 y Panel Gwella Gwasanaethau Plant) / *Session → Part 4: All Wales Child Protection Guidance (allegations against professional workers who work with children)*